






# Diweddariad 2017 o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron 2017 WG33722 ISBN digidol 978-1-78903-130-0

# Cynnwys


Rhagair ........ 2

1 Rhagarweiniad ........ 4

2 Cynnydd ers Cyhoeddi ........ 5

2.1 Cynlluniau a gwblhawyd ........ 5
2.2 Cynlluniau newydd ........ 5
2.3 Cynlluniau wedi cael proffil newydd ........ 7
2.4 Cynlluniau wedi eu haddasu ........ 7

3 Rhaglen ddiweddaraf y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ........ 9

3.1 Darparu ac amserlen ........ 9

4 Cyllid ........ 10

4.1 Trosolwg ........ 10
4.2 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ........ 11

Atodiad B – Cynlluniau NTFP a Gwblhawyd (2015 – 2017) ........ 13

Atodiad B – Amserlen ddarparu ........ 15

Atodiad C – Prosiectau fydd yn chwilio am gyllid o dan raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yng Nghymru ........ 37

Cynlluniau ffyrdd ........ 37

Rheilffyrdd ........ 40

# Rhagair

Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaethom gyda darparu rhaglen uchelgeisiol o welliannau trafnidiaeth, fel y disgrifiwyd hwynt yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015. Rydym eisoes wedi cyflawni nifer o gynlluniau'n cynnwys: Ymrwymiadau Metro Cam 1; uwchraddio Twneli'r A55; trydedd rhan cynllun deuoli'r A465 rhwng Brynmawr a Thredegar: Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae (Queensgate i Ocean Way) yn ogystal â phecynnau o fesurau llai fel gwella hygyrchedd at orsafoedd.

Bwriadaf adolygu'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn flynyddol. Y diweddariad hwn yw'r adolygiad cyntaf ac mae'n disgrifio'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni, cynlluniau newydd a ddechreuwyd gennym a sut y bydd y rhaglen yn cael ei chyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Cynllun, er nad yw'n ddogfen bolisi, yn gosod allan sut y bwriadwn ddarparu'r canlyniadau a ddisgrifir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Fel gyda Chynllun 2015, mae'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf yn un uchelgeisiol ac yn cynnwys ymyriadau pwysig megis cyflwyno'r cysyniad o fetro i Ogledd Ddwyrain Cymru ac i Fae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin.

Mae symudiad clir wedi bod at gyflawni ymyriadau llai a mwy fforddiadwy sy'n gallu cael effaith sylweddol er hynny, a thargedu mwy o gymunedau fel y rhaglen mannau cyfyng i fynd i'r afael â thagfeydd a gwella dibynadwyedd gwasanaethau bws.

Mae dulliau teithio cynaliadwy hefyd yn cael lle amlwg yn ein rhaglen gan dargedu gorsafoedd rheilffordd newydd, gwelliannau i wasanaethau bws a thrên a hyrwyddo cerdded a beicio ac atebion trafnidiaeth integredig.

Mae'r amlen ariannol sydd gennym i gyflawni ein Cynllun yn parhau i fod yn heriol. Er hynny rwy'n ffyddiog y bydd y buddsoddiadau a gynigiwn yn arwain at newidiadau sylfaenol i'n system drafnidiaeth.



**Ken Skates AC**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

# 1 Rhagarweiniad

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yng Ngorffennaf 2015. Mae'n nodi'n fwy manwl sut y bwriadwn gyflawni'r canlyniadau a osodir allan yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o 2015 ymlaen. Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl ymyriadau trafnidiaeth sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Diweddariad 2017 hwn i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ers ei gyhoeddi ac yn rhoi diweddariad ar ein rhaglen am y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r Cynllun hwn hefyd yn gosod allan:

- Yr amserlen ar gyfer ariannu a darparu'r cynlluniau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru;
- Yr amcan-wariant sydd ei angen i ddarparu'r cynlluniau;
- Y ffynonellau cyllid tebygol ar gyfer darparu'r cynlluniau.

Nid yw'r Cynllun yn ddogfen bolisi ac nid yw ychwaith yn ceisio blaenoriaethu pa gynlluniau sydd i fynd yn eu blaenau. Mae rhai o'n prosiectau'n cael eu cyflawni, mae rhai yn y cam adeiladu ac eraill wrthi'n cael eu datblygu.

# 2 Cynnydd ers Cyhoeddi

## 2.1 Cynlluniau a gwblhawyd

Ers cyhoeddi’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2015, mae nifer o gynlluniau wedi eu cwblhau gan gynnwys Twneli'r A55, trydedd rhan cynllun deuoli’r A465 rhwng Brynmawr a Thredegar, Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae (o Queensgate i Ocean Way) a Metro Cam 1. Nodir rhestr o gynlluniau wedi eu cwblhau yn Atodiad A.

## 2.2 Cynlluniau newydd

Mae 26 o gynlluniau ychwanegol wedi eu cynnwys yn y rhaglen drafnidiaeth ers ei chyhoeddi:

*Cynlluniau newydd wedi eu cynnwys fel rhan o gytundeb cyllideb 17/18:*

- Cyllid ychwanegol i’r rhaglen Llwybrau Mwy Diogel i’r Ysgol a chludiant ysgol.
- Astudiaeth i ba mor ymarferol fyddai ailagor y llinell rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth.
- Astudiaeth o ymarferoldeb llwybr beicio cenedlaethol.
- Cronfa seilwaith porthladdoedd.

*Cynlluniau newydd wedi eu cynnwys fel rhan o gytundeb cyllideb 18/19 a 19/20:*

- Gwaith pellach i ystyried estyniadau posib ar rwydwaith Metro De Cymru, gan gynnwys cysylltu Maerdy a Rhondda Fach.
- Ystyried y ddadl a’r angen am hybiau strategol ychwanegol fel rhan o waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru.
- Symud ymlaen gydag astudiaeth Twneli’r Rhondda.
- Datblygu achos busnes amlinellol strategol ar gyfer cynnig Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin.
- Trydedd bont dros y Fenai – cyllid i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu trydedd bont.

- Pwyntiau gwefru trydan.
- Pont Cleddau – y gost o dynnu’r tollau.
- Uwchraddio rhwydwaith TrawsCymru o fysus i goetsys.
- Seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de – gwaith deuoli lle bo’n bosib, yn enwedig ar hyd yr A487 a’r A470.

*Cynlluniau newydd a gytunwyd, yn deillio o ddarparu NTFP 2015:*

- Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol.
- Teithio Llesol.
- Rhaglen mannau cyfyng:
    - Gwelliannau Gogledd/De (cyfleoedd i oddiweddyd) ar hyd yr A487 a’r A470 (yn cynnwys cyfleoedd goddiweddyd yn y Canolbarth).
    - Gwelliannau i Gyffyrdd 3-6 ar hyd Ffordd Osgoi'r A483 yn Wrecsam.
    - Gwelliannau i’r A5/A483 rhwng y Ffin gyda Lloegr ac i’r de o Ffordd Osgoi Wrecsam.
    - Gwelliannau i goridor yr A470 rhwng Coryton a Ffynnon Taf.
    - Gwelliannau i goridor yr A470 rhwng Ffynnon Taf a Merthyr.
    - Coridor rhwng Cyffordd 32 a Chyffordd 35 yr M4.
    - Coridor rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 49 yr M4.
- Darparu’r weledigaeth a gyflwynir yn 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen - Ein Gweledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru’, Mawrth 2017.
- Cronfa Welliannau Ardal Wrecsam.
- Datblygiad Porthladd Caergybi.
- Gwelliannau i’r A40 (cynlluniau 2 + 1).

- Lôn Pum Milltir – Astudiaeth ymarferoldeb i ystyried opsiynau o Sycamore Cross i Gyffordd 34.

- Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae Cam 2 – Astudiaethau i adnabod opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd yn Ne Ddwyrain Caerdydd.

- Strategaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy Arfordir Caerdydd a’r Fro.

- Gorsaf Rheilffordd Newydd yn Bow Street.

- Gorsaf Rheilffordd Newydd yn Llanwern.

- Pecyn Hyb Trafnidiaeth Integredig Caerdydd.

## 2.3 Cynlluniau wedi cael proffil newydd

Er mwyn blaenoriaethu cynlluniau yn y Diweddariad i’r NTFP i fod yn gyson â’r cyllid fydd ar gael dros y cyfnod o dair blynedd, mae’r cynlluniau canlynol wedi cael proffil newydd:

- R25/26 – y rhaglen cyflwyno a thynnu statws cefnffyrdd.

## 2.4 Cynlluniau wedi eu haddasu

Yn ogystal, mae cynlluniau sydd bellach wedi eu cynnwys fel rhan o brosiectau neu raglenni eraill:

- R29 – mae adnabod rhaglen o welliannau ar y rhwydwaith priffyrdd bellach yn cael ei wneud drwy R27 – rhaglen mannau cyfyng a chyfleoedd goddiweddyd.

- R27b – Cyffordd 41 yr M4 ym Mhort Talbot – asesu canlyniad y treial a phenderfynu ar y ffordd ymlaen – bellach yn symud ymlaen o dan Astudiaeth Cyffordd 35 i Gyffordd 49 yr M4 (R27h).

- R27c – A55 Pont y Fenai – bellach yn rhan o’r prosiect Trydedd Bont dros y Fenai (R19).

- BCT 5 – Gweithredu’r ymatebion i’r argymhellion yn deillio o Adolygiad y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysus yn 2014 – bellach yn symud ymlaen o dan ymyriadau eraill, gan gynnwys BCT 7.

- Mae CCRM9 – adnabod cyfyngiadau gweithredol, CCRM11 – gwella mynediad i gymunedau heb wasanaeth trên, CCRM12 – cysylltedd canol y ddinas, CCRM12b – system bysus cyflym Casnewydd, CCRM13 – parcio a theithio, CCRM14 – gwybodaeth deithio, CCRM15 – cangen Maesteg, a CCRM16 - cyfleusterau rhyngfoddol gwell – i gyd bellach wedi eu cynnwys yn rhaglen datblygu a darparu Metro De Ddwyrain Cymru (CCRM10).

- Mae Rl11/12 ar ddatblygu rheilffyrdd wedi'i ad-drefnu'n un ymyriad - Rl11.

- Rl16/17 – mae cynlluniau gwelliannau rheilffordd Gogledd Ddwyrain Cymru'n symud ymlaen o dan Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Ein Gweledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru, Mawrth 2017 (NEW 16).

- RI9 – Gorsaf Caerdydd Canolog – datblygu achos busnes yn amodol i dderbyn y caniatadau angenrheidiol. Yn symud ymlaen drwy Becyn Hyb Trafnidiaeth Integredig Caerdydd (NEW 18).

- RS2 ac RS2d – y fasnachfraint a'r caffael yn symud ymlaen ynghyd â datblygu rhaglen datblygu a darparu Metro de ddwyrain Cymru (CCRM10).

- Mae P1 – Datblygu Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r sector porthladdoedd yng Nghymru'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'r sector porthladdoedd yn gweithio gyda'i gilydd – wedi'i ddisodli gan P2.

- Mae CCRM7 Tocynnau Clyfar – astudiaethau ymarferoldeb cychwynnol o weithredu tocynnau clyfar 'Talu wrth Fynd' – yn cael ei ddarparu drwy IT2.

- Mae CCRM7a Tocynnau Clyfar - gweithredu tocynnau clyfar 'Talu wrth Fynd' – yn cael ei ddarparu drwy IT2.

- Mae BCT14 ac 14a yn cael eu darparu drwy BCT12 (gan gynnwys darparu'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol).

- Mae IT4 ac IT4a – opsiynau i wella mynediad cynaliadwy at Lannau Dyfrdwy, a'r rhaglen welliannau, yn symud ymlaen o dan Symud Gogledd Cymru Ymlaen - Ein Gweledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru, Mawrth 2017 (NEW 16).

# 3 Rhaglen ddiweddaraf y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

## 3.1 Darparu ac amserlen

Mae cynlluniau'r Diweddariad 2017 o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn gyfuniad o raglenni refeniw a chyfalaf. Maen nhw'n amrywio o raglenni cynllun-benodol i rai eraill lle mae angen mwy o waith ymchwilio / datblygu.

Nodir amserlen ddarparu'n cyflwyno cynlluniau'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn Atodiad B. Mae'r amserlen ddarparu'n adlewyrchu'r tybiaethau presennol ynghylch proffil darparu pob cynllun a gallai'r rhain newid, wrth gydnabod y prosesau statudol sy'n rhaid eu cwblhau a bod angen bod yn ymatebol i amgylchiadau a allai newid.

Bydd yr amserlen ddarparu'n parhau i gael ei hadolygu a'i diweddaru wrth i broffil darparu cynlluniau penodol ddod yn gliriach.

# 4 Cyllid

## 4.1 Trosolwg

Mae ein ffocws ar sicrhau bod pob cynllun trafnidiaeth yn effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian.

Darperir y cynlluniau a gyflwynir yn y Diweddariad 2017 hwn i'r NTFP drwy gyfrwng nifer o ffynonellau cyllid ond yn bennaf gyda chyllidebau cyfalaf a refeniw adran drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Cyfanswm cost y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y NTFP interim (rhwng 2017/18 a 2019/20) yw £2.7 biliwn yn erbyn cyllideb o £2.33 biliwn. Bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei bontio drwy ddefnyddio ffynonellau arian cyfatebol eraill, fel Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a hefyd drwy roi proffil newydd i rai cynlluniau, lle bo angen.

Mae Tabl 4.1 isod yn nodi'r proffil gwario dangosol dros weddill cyfnod y Cynllun. Bydd cynlluniau sydd heb eu datblygu eto'n symud ymlaen drwy ddadansoddi achosion busnes cadarn sy'n dangos gwerth am arian a thrafod setliadau cyllideb yn y dyfodol. Bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd wrth i ddatblygiad y cynlluniau fynd yn ei flaen.

**Tabl 4.1 Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2017-2020) £m – Gwariant Cyfalaf a Refeniw Dangosol**

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Cyfanswm 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Refeniw ar Drafnidiaeth** | 334 | 308 | 275 | **917** |
| **Gwariant Cyfalaf ar Drafnidiaeth** | 348 | 658 | 781 | **1,786** |
| **Cyfanswm** | **682** | **966** | **1,056** | **2,703** |

Mae Tabl 4.2 isod yn nodi cyllideb Gyfalaf a Refeniw Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Nid yw'n cynnwys cyllid o hyd at £160 miliwn gan yr ERDF i fyny at 2023 a chyllid o £125 miliwn gan yr Adran Drafnidiaeth (tuag at fetro De Cymru).

**Tabl 4.2 Diweddariad 2017 i’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2017-2020) £m – Cyllideb Gyfalaf a Refeniw Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru***

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Cyfanswm 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Adran Drafnidiaeth LlC** | 334 | 299 | 278 | **911** |
| **Cyllideb Gyfalaf Adran Drafnidiaeth LlC** | 324 | 315 | 384 | **1,023** |
| **Cyllid canolog LlG ar gyfer yr M4** | 24 | 150 | 231 | **405** |
| **Cyfanswm** | **682** | **765** | **892** | **2339** |

*Nid yw hyn yn cynnwys cyllid ERDF, yr Adran Drafnidiaeth a ffynonellau arian cyfatebol eraill

## 4.2 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Adlewyrchir ein hybiau a’n llwybrau trafnidiaeth strategol allweddol yn y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T[1]) – sef polisi gan yr UE a ddyfeisiwyd i hyrwyddo cydlyniant, rhyng-gysylltu a rhyng-weithredu rhwng y systemau trafnidiaeth cenedlaethol drwy gymhwyso safonau cyffredin (wele Ffigwr 4.3).

1 http://ec.europa.eu/transport/themes/infrastructure/index_en.htm

**Ffigwr 4.3: Y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T)**




Mae Atodiad C yn cynnwys manylion am brosiectau y byddwn yn ceisio eu cyllido’n rhannol o raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2014-2020 yng Nghymru.

# Atodiad B – Cynlluniau NTFP a Gwblhawyd (2015 – 2017)

| Cyf. NTFP | Disgrifiad o’r Ymyriad |
|---|---|
| R6 | Slipffordd rhwng cyffordd 33 yr M4 i’r gorllewin a'r A4232 i’r de |
| R7 | Hafanau Diogel / Lonydd Gwrthlif Argyfwng ar hyd yr A55 |
| R27d | Twneli’r A55 |
| R5 | Gwelliannau ar ganol eu hadeiladu - A465 rhwng Brynmawr a Thredegar (Trydedd Ran cynllun deuoli Blaenau’r Cymoedd). |
| R13 | Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae: Queensgate i Ocean Way, Caerdydd |
| RI3 | Gwelliannau i Linell Rheilffordd Glynebwy: Estyniad i’r llinell, gwelliannau i gyflymder y llinell a gorsaf newydd i / yn nhref Glynebwy. |
| CCRM4a | METRO Cam 1 – Gorsaf Fysus Casnewydd (Cam 2) |
| CCRM4b | METRO Cam 1 – Gorsaf Fysus Merthyr Tudful – Dylunio a Pharatoi’r Safle |
| CCRM5 | METRO Cam 1 – Gwelliannau i Goridorau Blaenoriaeth i Fysus |
| IRE4 | Datblygu model trafnidiaeth ranbarthol ar gyfer De Ddwyrain Cymru. |
| AT4 | METRO Cam 1 – Teithio Llesol – Darparu llwybrau teithio llesol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Merthyr a Phen-y-bont. |
| AT1a | Sicrhau bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei darparu drwy: Ystyried y Mapiau Llwybrau Presennol i’w cymeradwyo pan gyflwynir yn 2015. |
| Rl1a | Rhaglen Mynediad i Bawb – Haen Ganol: Gwelliannau mynediad i'r gorsafoedd rheilffordd yn y Radur, Llandaf, Ystrad Mynach, Machynlleth a’r Waun. |
| RI2 | Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd (NSIP+): gwelliannau i’r gorsafoedd yn Aberystwyth, Llandudno, Y Rhyl, Ystrad Mynach, Pontypridd a Phort Talbot Parkway; rhaglen gosod mynediad hawdd mewn gorsafoedd bach ledled Cymru i roi mynediad i gadeiriau olwyn drwy ddefnyddio rampiau ar drenau. |
| RI7 | Cyfrannu at Broses Gynllunio Hirdymor Network Rail a datblygu Astudiaeth Llwybrau uchelgeisiol ar gyfer Cymru. |
| RS4 | Gwerthuso’r gwelliannau i wasanaethau rheilffordd a nodir yn Astudiaeth Llwybrau Cymru (2015) Network Rail ac astudiaethau Prosesau Cynllunio Hirdymor eraill a allai fod eu hangen yn CP6, gan gynnwys: Gwasanaethau amlach ar linell y Gororau, h.y. bob hanner awr i’r Amwythig (bob awr o Gaerdydd i Fangor / Caergybi); trenau hirach ar gyfer rhai gwasanaethau ar linell y Gororau rhwng Caerdydd a Manceinion; gwasanaethau amlach rhwng Wrecsam a Chaer yn dilyn ail-ddyblu ac ymestyn y gwasanaethau “Trans Pennine Express” a / neu wasanaethau newydd i Lerpwl. |
| RS1c | Rheoli’r fasnachfraint bresennol gan gynnwys: Adolygu’r gwelliannau gwasanaeth y bwriedir eu gwneud. |
| RS2a | Sefydlu o dan ba fframwaith polisi y bydd y fasnachfraint yn cael ei gosod. |

| Cyf. NTFP | Disgrifiad o’r Ymyriad |
|---|---|
| RS2b | Nodi amlder gwasanaethau priodol ac unrhyw wasanaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys, gan ystyried buddsoddi mwy yn y seilwaith gan Lywodraeth Cymru, Network Rail a phartïon eraill. |
| RS2c | Datblygu strategaeth fasnachol, wedi’i goleuo gan waith modelu. |
| BCT9 | Gwerthuso cynlluniau peilot yng Ngheredigion a Bro Morgannwg i oleuo datblygu dulliau mwy hirdymor o gefnogi trafnidiaeth gymunedol. |
| BCT10 | Gwerthuso pa mor effeithiol yw Bwcabus a chynlluniau tebyg a defnyddio’r dystiolaeth i oleuo sut i redeg gwasanaethau trafnidiaeth ar sail galw yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. |
| RS3 | Adnabod cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau rheilffordd i wasanaethu Cymru i'w darparu drwy wasanaethau yn Lloegr a reolir gan yr Adran Drafnidiaeth, a dylanwadu ar brosesau masnachfraint cysylltiedig. |
| CCRM8 | Cwblhau’r gwaith cynllunio trafnidiaeth fydd yn cadarnhau pa gymysgedd priodol o foddau trafnidiaeth gyhoeddus i’w datblygu ar gyfer pob coridor, yn galluogi datblygu achosion busnes penodol ac yn ategu rhaglen hirdymor y Metro, gan gynnwys ystyried rheilffyrdd ysgafn ac opsiynau eraill. |
| CCRM10 | METRO Cam 2 – Gwelliannau i Linellau Caerdydd a’r Fro: Ymchwilio i welliannau i linellau rheilffordd presennol y Fro i roi hwb i’w perfformiad. Sut y bwriedir darparu’r ateb sy’n cael ei argymell. Y gwaith ymchwilio i edrych yn gyntaf ar: |
| CCRM10a | METRO Cam 2 – Llinell Rhymni – ymchwiliadau / astudiaethau ymarferoldeb. |
| CCRM10b | METRO Cam 2 – Llinell Coryton – ymchwiliadau / astudiaethau ymarferoldeb. |
| CCRM10c | METRO Cam 2 – Llinellau’r Ddinas / Bae – ymchwiliadau / astudiaethau ymarferoldeb. |
| CCRM10e | METRO Cam 2 – Llinell Treherbert / Aberdâr / Merthyr – ymchwiliadau / astudiaethau ymarferoldeb. |
| RI6 | Prosiect gwella capasiti / amseroedd siwrne rhwng Gogledd a De Cymru. Wedi’i gyllido drwy Lywodraeth Cymru. (yn cynnwys Croesfan Broad Oak). |
| F1 | Gweithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cludo Nwyddau. |
| C1 | Diwygio’r Cod Ymddygiad Teithio a gefnogir gan y Comisiynydd Plant. |

# Atodiad B – Amserlen ddarparu

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2017/ 18** | **2018/ 19** | **2019/ 20** |
| **CYNLLUNIAU AR GANOL EU HADEILADU** | | | | | |
| R10 | Gwelliannau i'r A465 rhwng Gilwern a Brynmawr (Ail Ran cynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd). | Dechreuodd y gwaith adeiladu yn Rhagfyr 2014 a bydd yn parhau tan ddiwedd 2019. | | | |
| R6 | Cyffordd 33 yr M4 i'r gorllewin / A4232 | Slipffordd i'r de – wedi'i chwblhau, slipffordd i'r gogledd i gael ei hadeiladu. | | | |
| R9 | Gwelliannau diogelwch i Dwneli Brynglas. | Ar ganol eu hadeiladu. | | | |
| R16 | Ffordd osgoi A483/A489 yn y Drenewydd. | Ar ganol ei hadeiladu. | | | |
| R14 | Gwelliannau i Lôn Pum Milltir, Bro Morgannwg. | Mae'r cynllun yn cael ei ddarparu gan Gyngor Bro Morgannwg gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Contract wedi'i ddyfarnu. | | | |
| RI5 | Gwelliannau amlder i Linell Glynebwy (rhan o Fetro Cam 1): Ail-ddyblu 7 milltir o drac rhwng Cross Keys ac Aberbeeg; gwelliannau i Gyflymder y Llinell; Platfformau newydd ym Mhontnewydd-ar-Wy a Llanhilledd; gwelliannau signal a seilwaith. | Cynlluniau darparu Network Rail wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. | | | |
| R21 | Cyffordd 28 yr M4. | Ar ganol ei hadeiladu. | | | |
| **FFYRDD** | | | | | |
| **Cynnal a chadw a gweithrediad y rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd** | | | | | |
| R1 | Galluogi gweithrediad diogel, effeithlon ac effeithiol y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd o ddydd i ddydd drwy archwiliadau a chynnal a chadw rheolaidd, wedi'i gefnogi gan orfodaeth | Parhau i gyflwyno'r gwelliannau cynnal a chadw a mân-welliannau. | | | |

| **Cyf.** | **Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol** | **Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015** | **Cyfnod darparu** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2017/ 18** | **2018/ 19** | **2019/ 20** |
| | briodol a gwasanaethau penodol eraill gan gynnwys gwasanaeth gaeaf. | | | | |
| R30 | Bydd ymchwilio a chyflwyno Systemau Trafnidiaeth Deallus (ITS) ac atebion technegol arloesol yn parhau mewn mannau ar hyd y rhwydwaith, gan roi manteision i'r cyhoedd, i gludo nwyddau ac i rai sy'n rhedeg y rhwydwaith. | System teledu cylch cyfyng cefn swyddfa newydd wedi'i gosod i weld lluniau'n fwy dibynadwy. Waliau tân a chaledwedd newydd i'r rhwydwaith TGCh i warchod rhag ymosodiadau seiber-ddiogelwch. Diweddariadau ar y gweill ar gyfer lansiad newydd y wefan www.traffigcymru.com. Gwelliannau technoleg yn parhau i gyfarpar ochr ffordd. | | | |
| R31 | Mesurau i leihau ein defnydd o ynni, e.e. bwriedir cyflwyno goleuadau ynni isel a thechnegau arloesol i reoli'r rhwydwaith lle bydd achosion busnes penodol yn caniatáu. | Mae rhaglen uwchraddio llusernau Cymru Gyfan wedi dechrau ynghyd â cyflwyno systemau rheoli / rheolaeth ganolog cysylltiedig ar draws Cymru. | | | |
| R32 | Ymchwilio i, a lle bo'n ymarferol, gweithredu mesurau i wella ansawdd yr aer mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA) sy'n gysylltiedig â rhwydwaith LlC. | Ystyried opsiynau yn parhau. | | | |
| R33 | Parhau i ddarparu'r rhaglen flaenoriaeth ar gyfer Ardaloedd Blaenoriaeth Cynllunio Gweithredu ar Sŵn. | Yn parhau. | | | |
| NEW 1 | Pont Cleddau – tynnu'r tollau erbyn 2020. | | | | |
| **Diogelwch Ffyrdd** | | | | | |
| R2 | Cyflawni'r gweithredu a nodir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau). | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – arian grant wedi'i ddyrannu i ddarparu cynlluniau gwella. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/ 18 | 2018/ 19 | 2019/ 20 |
| | Cyflawni'r gweithredu a nodir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – arian penodol ar gyfer ysgolion). | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – arian penodol ar gyfer ysgolion - arian grant wedi'i ddyrannu i ddarparu cynlluniau gwella. | | | |
| | Cyflawni'r gweithredu a nodir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau). | Arian Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd – arian grant wedi'i ddyrannu i ddarparu cynlluniau gwella. | | | |
| R4 | Darparu rhaglen o welliannau diogelwch ar y ffyrdd y tu allan i ysgolion ar y gefnffordd. | Y rhaglenni darparu'n parhau. | | | |
| **Cynlluniau Ffordd sydd i gael eu hadeiladu** | | | | | |
| R8 | Darn newydd o draffordd i'r de o Gasnewydd a mesurau ategol, gan gynnwys; ailddosbarthu'r M4 bresennol rhwng Magwyr a Chas-bach, ffordd gyswllt M48-B4245 a seilwaith cyfeillgar i feicwyr a cherddwyr. | Cafodd Gorchmynion Drafft, Datganiad Amgylcheddol ac Adroddiadau Cysylltiedig eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016. Ymchwiliad Cyhoeddus wedi dechrau yn Chwefror 2017. Yn aros am y canlyniad. | | | |
| R11 | Gwelliannau i'r A465 o'r A470 i Hirwaun (Chweched Ran cynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd) ac o Flaen Dowlais i'r A470 (Pumed Ran cynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd). | Y cynllun i symud ymlaen drwy Bartneriaeth Gyhoeddus a Phreifat (PPP) yn defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) | | | |
| R15 | Gwelliannau i'r A40 rhwng Llanddewi Efelffre a Phenblewin | Mae Carillion PLC wedi eu penodi i ddylunio ac adeiladu'r cynllun. Arddangosfeydd Cyhoeddus ac ymgynghori wedi digwydd. Dyluniad amlinellol ac Asesiad manwl o'r Effaith Amgylcheddol yn parhau. Disgwylir i Orchmynion Drafft gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/ 18 | 2018/ 19 | 2019/ 20 |
| NEW 2 | Gwelliannau i'r A40 (Cynlluniau 2+1) | Dulliau darparu wrthi'n cael eu hystyried. | | | |
| R17 | Ffordd osgoi'r A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd | Cyhoeddwyd Gorchmynion Drafft, Datganiad Amgylcheddol ac Adroddiadau Cysylltiedig yn Awst / Medi 2016. Yn ystyried adroddiad yr Arolygydd yn dilyn ymchwiliad. | | | |
| R18 | Gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16 yr A55 | Carillion wedi'i benodi fel Contractwr ECI ym Medi 2017. Cyllid ERDF wedi'i sicrhau ar gyfer y cynllun. | | | |
| R19 | Gwelliannau i Groesfan yr A55 dros y Fenai | Cwmni ymgynghorol Cam Allweddol 2 wedi eu penodi. Ymgynghoriad cyhoeddus i'w gynnal yn Rhagfyr 2017. Y llwybr a ffafrir i'w gyhoeddi ym mis Mai 2018. | | | |
| R20 | A55 rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion | Cynllun draenio manwl wedi'i gwblhau yn Awst 2017. Gorchmynion Drafft wedi eu cyhoeddi yn Awst / Medi 2017. Cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben ar 18 Hydref 2017. Bydd penderfyniad wedyn ynghylch a fydd angen PLI. Cyllid ERDF wedi'i sicrhau. | | | |
| R22 | Datblygu'r llwybr a warchodir presennol i ddarparu ffordd osgoi gyfun ar gyfer Llandeilo a Ffairfach. | Cyflawni arfarniad WelTAG o'r cynllun i gadarnhau a oes dal angen ffordd osgoi neu a fyddai'n bosib gweithredu atebion eraill. | | | |
| R23 | A487 Pont ar Ddyfi | Cyhoeddwyd Gorchmynion Drafft, Datganiad Amgylcheddol ac Adroddiadau Cysylltiedig yn Awst / Medi 2017. Yn ystyried yr ymatebion i'r gorchmynion a gyhoeddwyd. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o’r Ymyriad – Diweddariad 2017 i’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/ 18 | 2018/ 19 | 2019/ 20 |
| **Cynlluniau Ffyrdd i’w datblygu** | | | | | |
| NEW 3 | Lôn Pum Milltir – ystyried opsiynau o Sycamore Cross at Gyffordd 34 | Camau 1 a 2 WelTAG, i benderfynu ar yr opsiwn a ffafrir, i’w cwblhau erbyn Mawrth 2018. Astudiaeth economaidd wedi dechrau. | | | |
| NEW 4 | Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae Cam 2 | Astudiaethau i adnabod opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd yn Ne Ddwyrain Caerdydd. | | | |
| R24 | Datblygu cynllun i wneud gwelliannau i Goridor yr A494/A55/A548 yng Nglannau Dyfrdwy. | Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau opsiwn llwybr wedi’i gynnal rhwng Mawrth a Mehefin 2017. Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi ar 26 Medi 2017 mai’r Opsiwn Coch oedd y llwybr a ffafrir. Y cam nesaf yw caffael asiant cyflogwr a chontractwr ECI i symud ymlaen at y cam nesaf o ddatblygu’r dyluniad a gweithdrefnau statudol. | | | |
| R24a | Datblygu cynllun i wneud gwelliannau i Goridor yr A494/A55/A548 yng Nglannau Dyfrdwy – Pont Afon Dyfrdwy. | Yn parhau gyda chaffael dylunydd cyflogwr. Gwaith ar ddatblygu’r dyluniad a pharatoi Datganiad Amgylcheddol a Gorchmynion Drafft i ddechrau yn fuan yn 2018. | | | |
| R28a | Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartneriaid yn Lloegr i symud ymlaen gyda’r cynllun canlynol: A483 Pant at Lanymynech (cynllun trawsffiniol). | Deialog yn parhau gyda phartneriaid allweddol ar ochr Lloegr i’r ffin i ddod i gytundeb ar symud ymlaen gyda’r gwelliannau. | | | |
| R28b | Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartneriaid yn Lloegr i symud ymlaen gyda’r cynllun canlynol: A458 Buttington Cross at Wollaston Cross (cynllun trawsffiniol). | Deialog yn parhau gyda phartneriaid allweddol ar ochr Lloegr i’r ffin i ddod i gytundeb ar symud ymlaen gyda’r gwelliannau. | | | |
| **Rhaglen mannau cyfyng a chyfleoedd goddiweddyd** | | | | | |
| R27a | Astudiaeth gwelliannau gwydnwch i’r A55 | Gwelliannau tymor byr i wella gwydnwch yn cael eu cyflwyno. Cam nesaf fydd datblygu mesurau | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| | | tymor canolig/ hir. | | | |
| R27b | Gwelliannau Gogledd / De (cyfleoedd goddiweddyd) A487 & A470. | Safleoedd posib wedi eu hadnabod a gwaith dylunio'n parhau i ddigwydd. | | | |
| R27c | Gwelliannau i Gyffyrdd 3-6 Ffordd Osgoi'r A483 yn Wrecsam. | Gwelliannau seilwaith mawr i uwchraddio cyffyrdd 3-6 a lôn ychwanegol i gynyddu capasiti rhwng y ddwy gyffordd. Rhestr fer o opsiynau wedi eu adnabod. Cam nesaf yw canfod yr opsiwn gorau. | | | |
| R27d | Gwelliannau A5/A483 i'r de o Ffordd Osgoi Wrecsam at y Ffin gyda Lloegr. | Gwelliannau seilwaith mawr i gynyddu capasiti'r cyffyrdd a lleihau tagfeydd a deuoli'r lonydd unffrwd presennol i fyny at y ffin gyda Lloegr. Yn cysylltu i'r gwaith deuoli disgwyliedig ar yr A5 yn Lloegr dros i ffin i'r Amwythig. Trafodaethau i gytuno y camau nesaf gyda partneriaid yn parhau. | | | |
| R27e | Gwelliannau i Goridor yr A470 rhwng Coryton a Ffynnon Taf. | Atebion posib wedi eu hystyried a rhestr fer o opsiynau wedi ei llunio. | | | |
| R27f | Gwelliannau i Goridor yr A470 rhwng Ffynnon Taf a Merthyr. | Atebion posib wedi eu hystyried a rhestr fer o opsiynau wedi ei llunio. | | | |
| R27g | Coridor yr M4 Cyffyrdd 32-35. | Atebion posib wedi eu hystyried a rhestr fer o opsiynau wedi ei llunio. | | | |
| R27h | Coridor yr M4 Cyffyrdd 35-49. | Yn parhau gydag astudiaeth i adnabod unrhyw broblemau ac atebion posib. | | | |
| **Cefnogi gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd sirol** | | | | | |
| R3 | Datblygu cynigion ar gyfer cyflwyno grant cyfalaf drwy Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i gefnogi gwelliannau strategol i drafnidiaeth ranbarthol, gan gynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd lleol a mynediad at gyflogaeth. | Mae Cronfa Drafnidiaeth Leol wedi'i dyrannu i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/ 18 | 2018/ 19 | 2019/ 20 |
| **CLUDO NWYDDAU** | | | | | |
| **Manteisio ar gyfleoedd cludo nwyddau** | | | | | |
| F2 | Parhau i adolygu'r cyfleoedd i fanteisio ar gludo ar y rheilffyrdd ac ar hyd llwybrau morol byr. | Yn parhau. | | | |
| F3 | Parhau i gefnogi datblygu'r seilwaith ar gyfer Cludo Nwyddau ar y rheilffyrdd drwy Grantiau Cyfleusterau Cludo Nwyddau. | Yn parhau. | | | |
| F4 | Parhau i gefnogi'r Newid Moddol (o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd) drwy ddarparu grantiau MSRS. | Yn parhau. | | | |
| **TEITHIO LLESOL** | | | | | |
| **Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru)** | | | | | |
| AT1b | Sicrhau bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei darparu - Mapiau Rhwydwaith Integredig. | Ystyried Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer eu cymeradwyo. | | | |
| AT1c | Sicrhau bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei darparu – cynlluniau teithio llesol. | I'w darparu drwy raglenni eraill. | | | |
| AT2 | Darparu'r gweithredu a osodir allan yn y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Plan. | Yn parhau. | | | |
| AT3 | Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglen o welliannau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac sy'n cyfrannu at amcanion y Ddeddf Teithio Llesol. | Mae gwaith yn cael ei wneud fel rhan o brosiect wedi'i gyllido gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, nid gan Drafnidiaeth. | | | |
| NEW 5 | Astudiaeth o ymarferoldeb Llwybr Beicio Cenedlaethol. | Yn parhau. | | | |
| NEW 6 | Pecyn Trafnidiaeth Gynaliadwy Arfordir Caerdydd a'r Fro – datblygu pecyn | Adnabod atebion trafnidiaeth. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| | trafnidiaeth integredig. | | | | |
| NEW 7 | Twneli'r Rhondda. | Y gwaith ymarferoldeb yn parhau. | | | |
| **RHEILFFYRDD** | | | | | |
| **Rhaglen Mynediad i Bawb** | | | | | |
| RI13 | CP5 Rhaglen Mynediad i Bawb: Gwelliannau mynediad i orsafoedd: Llanelli, Y Barri, Trefforest, Ffynnon Taf, Cathays a Threherbert. | Yn ystyried trosglwyddo'r cyllid o brosiect Ffynnon Taf i Langatwg. | | | |
| RI14 | CP5 Rhaglen Mynediad i bawb: Cyflawni astudiaethau ymarferoldeb / opsiynau i ddarparu mynediad gwell yng ngorsafoedd: Fflint, Pengam a Llangatwg. O 16/17 ymlaen, datblygu prosiectau mynediad ychwanegol. | Yn ystyried opsiynau cyllido i ddiweddaru'r opsiynau ar gyfer Fflint. | | | |
| **Gwelliannau i Amlder Gwasanaethau** | | | | | |
| RI4 | Gwelliannau i amlder Cangen Maesteg gan gynnwys gwasanaethau amlach – datblygu yn adroddiad GRIP4. | Astudiaethau'n parhau. | | | |
| **Gorsafoedd Newydd** | | | | | |
| NEW 8 | Gorsaf Bow Street | Llwyddodd Gorsaf Bow Street i sicrhau cyllid Gorsafoedd Newydd yng Ngorffennaf 2017. Gwaith dylunio'n parhau. | | | |
| **Adnabod rhaglen o welliannau rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol** | | | | | |
| NEW 9 | Gorsaf Llanwern | Mae'r achos busnes ar gyfer y cynllun wrthi'n cael ei ddatblygu. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| RI8 | Datblygu meini prawf datblygu ac, yn defnyddio'r meini prawf hyn, llunio rhestr flaenoriaeth o gynigion gwella gorsafoedd i ddenu cyllid gan y cronfeydd HLOS perthnasol (oherwydd nid yw'r rheilffyrdd wedi eu datganoli). | Yn parhau. | | | |
| RI10 | Symud ymlaen ag asesiad cam 2 pellach ar gyfer y gorsafoedd canlynol erbyn diwedd 2018: De Ddwyrain Cymru:<br>Ely Mill/Victoria Park, Llanwern, Newport Road/Rover Way a Llaneirwg;<br>- De-orllewin Cymru: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr;<br>- Gogledd Cymru: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy / Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni;<br>- Canolbarth Cymru: Carno.<br>Symud ymlaen gyda rownd arall o gynigion gorsaf newydd i dderbyn Asesiad Cam 2 yn 2018. | Gwaith asesu'n cael ei gyflawni. | | | |

| Cyf. | Disgrifiad o'r Ymyriad – Diweddariad 2017 i'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol | Cynnydd yr ymyriad ers Gorffennaf 2015 | Cyfnod darparu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017/ 18 | 2018/ 19 | 2019/ 20 |
| RI11/ 12 | Gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu'r cynlluniau gwella seilwaith rheilffordd a gafodd eu hadnabod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a'r Canghellor yng Nghyllideb Hydref 2017:<br><br>• gwelliannau yng ngorsafoedd Caerdydd Canolog ac Abertawe;<br>• gwelliannau rhwng Llinellau Cyffordd Lliniaru Caerdydd a Thwnnel Hafren;<br>• gwelliannau i amseroedd siwrne rhwng Abertawe a Chaerdydd, a rhwng De Cymru, Bryste a Llundain;<br>• gwelliannau i amseroedd siwrne a capasiti ar hyd Prif Linell Reilffordd Gogledd Cymru;<br>• gwelliannau i amseroedd siwrne a capasiti ar hyd y llinell rhwng Wrecsam a Bidston. | Yn parhau. | | | |
| RI15 | Cau Croesfannau Rheilffordd a godir â llaw – cau 8 croesfan yn ardal Talerddig. | Mae'r prosiect ar fin cael ei gwblhau. | | | |
